NEUADD TYSUL HALL

IONAWR 2009 **RHIFYN 2**

Blwyddyn Newydd Dda!

Dyma'r gwelliannau diweddara a wnaethpeyd yn y Neuadd yn ystod y flwyddyn 2008.

Cawsom £5,000 o arian gan y Loteri Cenedlaethol. Yn dilyn, cynhaliwyd Bore Coffi a Noson o Adloniant Ysgafn lle codwy £1000. Rhaid diolch I bawb am eu cymorth a'u hamser.

Mae gan y "Clwb Cant" 120 o aelodau a phleser yw talu gwobro o £50 i'r enillydd lwcus bob mis.

Er mwyn dilyn rheolau diogelwch Tan, cafwyd £10,000 o arian gan y Cynghorau Sir a'r Gymuned. Dylai'r gwaith orffen tua diwedd Chwefror/dechrau Mawrth.

Derbyniwyd £500 gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a £700 gan y "Chrysanthemum Trust". Gyda'r arian yma prynwyd ugain o fyrddau newydd. Diolch am y cyfraniadau hyn yn ogystal a chyfraniadau oddi wrth unigolion lleol. Ar hyn o bryd mae cyfrif

Mae gwaith ar y to bron a'i orffen er gwaetha'r tywydd garw. Gobeitho y cawn gwblhau y gwaith peintio ddechrau'r gwanwyn.

Mae'r neuadd fawr wedi ei thrwsio a'r trydan erbyn hyn yn fwy cyfleus. Yn ystod y rhew caled torrodd un bibell ddwr. Diolch i Mr Kevin Jones, y gofalwr am ei thrwsio.

Beth am y Dyfodol?

Trwsio'r grisiau a chael ramp o flaen y brif fynedfa.

Gwella'r fynedfa sydd ar yr ochr.

Gwelliannau i'r ystafell bwyllgor.

Peintio tu fewn i'r neuadd.

Drysau tan newydd bob ochr i'r neuadd fawr.

Llawr newydd yn y neuadd.

Rhaid adnewyddu'r toiledau a chael cyfleusterau i'r anabl. Byddai'n fantais hefyd i gael cegin fechan ar y llawr isaf. I wneud hyn rhaid gwaredu y "Projection room".

Beth sy'n mynd ymlaen?

Bore Coffi ar y pedwerydd Llun ymhob mis rhwng 10 y.b. a 12 y.p. i ddechrau ar Mawrth 23ain.

Dewch a'ch ffrindiau.

CROESO I BAWB

COFIWCH

Bydd Richard Bramley a

Farmyard Nurseries yn y neuadd yn ystod y penwythnos Chwefror 20ed –22ain.

Diolch unwaith yn rhagor i bawb am eich cymorth

Llywodraethwyr a Phwyllgor Y Neuadd,